**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**28 CHWEFROR 2019**

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Iau, 28 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Dave Mackie, Billy Mullin, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger a Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Sian Braun, Adele Davies-Cooke, Veronica Gay, Andrew Holgate, Rita Johnson, Mike Lowe, Hilary McGuill, Ted Palmer, Tony Sharps and David Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Dirprwy Swyddog Monitro; Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Refeniw; Rheolwr Budd-daliadau; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd; a'r Cynghorydd y Parchedig Brian Harvey i offrymu'r weddi

## 110. DATGAN CYSYLLTIAD

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai cysylltiad personol a fyddai'n cael ei gofnodi ar ran yr holl Aelodau'n bresennol ar gyfer eitem 8, Adroddiad Blynyddol 2019 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019.

## 111. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd rhai.

Dywedodd y Cynghorydd Ron Davies y byddai deiseb ar y bwriad i gael gwared ar fysys 12 a 13, ac fe'i cynghorwyd y gallai'r ddeiseb gael ei chyflwyno cyn cyfarfod nesaf y Cyngor. Fel Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod dau wasanaeth bws wedi'u dileu gan Arriva ac y byddai'n cyfarfod y trigolion.

## 112. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd rhai.

**113. CWESTIYNAU**

Dim wedi'i derbyn.

**114. RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd Dau Rybudd o Gynnig:

(i) Diwygio system Treth y Cyngor - Cynghorydd David Healey

'Mae Cyngor Sir y Fflint yn annog Llywodraeth Cymru (LlC) i fanteisio ar y cyfle yn sgil dirprwyo pwerau newydd i ddiwygio system Treth y Cyngor yn radical er mwyn gallu defnyddio system decach a chynyddol i godi refeniw ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.'

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

I gefnogi ei Gynnig, dywedodd y Cynghorydd Healey nad oedd y system bresennol yn ystyried incwm y cartref, ei fod yn rhannu cymunedau ac mai dyma'r prif reswm am ddiffyg cysylltiad rhwng trigolion a chynghorau lleol yng Nghymru. Mae'r ffaith bod LlC am i gynghorau gynyddu Treth y Cyngor o 6.5% heb hyd yn oed ystyried eu gofynion unigol yn golygu bod baich caledi'n cael ei drosglwyddo i drigolion. Tra bod adroddiad diweddar gan LlC ar Bolisi Treth y Cyngor yn cydnabod y posibilrwydd o ddiwygio, nid oedd yn cydnabod annhegwch y system bresennol a'r angen i weinyddu system dreth y cyngor genedlaethol y gellid ei darparu ar lefel leol.

Fel Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid, croesawodd y Cynghorydd Aaron Shotton y Cynnig hwn i ganfod system decach a chynyddol i drigolion drwy Gymru. Byddai'r apêl am ddiwygio treth leol yng Nghymru'n cyd-fynd â sylwadau ar gadw trethu busnes i gefnogi gwasanaethau lleol. Cyfeiriodd at y drafodaeth ar y gyllideb yn y cyfarfod blaenorol a'r sefyllfa o ran cyllid cenedlaethol oedd wedi arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2019/20. Dywedodd fod system Treth y Cyngor yn arbennig o annheg i'r genhedlaeth iau, nifer ohonynt heb eu cartrefi eu hunain. Os byddai'r Cyngor yn cytuno, roedd yn cynnig ysgrifennu llythyr ffurfiol at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a gweithgor LlC ar ddiwygio llywodraeth leol i ofyn iddynt ystyried y Cynnig.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid y cynnig, er enghraifft y Cynghorydd Peers a ddywedodd fod Gweinidog LlC eisoes yn ymwybodol fod y system wedi'i thorri a bod yr effaith yn wahanol rhwng Gogledd a De Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Chris Bithell fod trigolion drwy Gymru'n cael eu heffeithio i'r un graddau a dywedodd y Cynghorydd Billy Mullin ei bod yn hen bryd diwygio. Tra pwysleisiodd y Cynghorydd Gladys Healey nad oedd y system bresennol yn cyfrannu at egwyddorion treth LlC ei hun, lleisiodd y Cynghorydd Carver bryderon y gallai system wahanol fod hyd yn oed yn waeth a dywedodd y Cynghorydd Heesom y dylid defnyddio Treth y Cyngor i ddelio â'r problemau â'r fformiwla cyllido. Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis y dylid cyfeirio at yr anghysondeb rhwng bandiau eiddo yn y llythyr arfaethedig a galwodd y Cynghorydd Tudor Jones ar y Cyngor i ymhelaethu ar y Cynnig i gael ateb tecach drwy Gymru.

Mewn ymateb i sylwadau gan rai Aelodau ynglŷn â'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2019/20, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai'r diwygiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi golygu bod gwasanaethau'r Cyngor mewn perygl ac mai'r broblem oedd bod Llywodraeth y DU yn torri cyllid gwasanaethau cyhoeddus.

Cefnogodd y Cynghorydd Richard Jones y Cynnig a chytunodd mai'r broblem wirioneddol oedd y fformiwla cyllido ond roedd yn amau a fyddai LlC yn gweithredu. Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin fod LlC yn camreoli arian.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, dywedodd y Prif Weithredwr fod LlC yn un o'r cyrff statudol oedd yn gorfod cydweithio i gyflawni amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dywedodd y byddai'r Cynnig yn adeiladu ar sylwadau swyddogol y Cyngor dros y tair blynedd ddiwethaf ar yr arian annigonol a roddwyd i Lywodraeth Leol yng Nghymru a'r fformiwla cyllido y pen oedd yn cael effaith negyddol ar Sir y Fflint a Chyngor eraill drwy Gymru. Dywedodd fod dyletswydd ar y Cyngor i ymateb i Julie James AC, Gweinidog Llywodraeth Leol, yn dilyn ymweliad dirprwyo trawsbleidiol, ac y dylai'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan y gweithgor trawsbleidiol gynnwys y Cynnig dros yr achos ariannu'n llawn.

Croesawodd Cynghorydd Healey y cynnig gan y Cynghorydd Shotton. Cyfeiriodd at y bwlch a ragwelid yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf er gwaethaf yr arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd a dywedodd na allai'r Cyngor wneud mwy ac y dylai roi adborth i LlC ar y fformiwla cyllido.

Pleidleisiwyd ar y Cynnig fel y'i diwygiwyd, ac fe'i pasiwyd. Cadarnhawyd y byddai copi o'r llythyr yn cael ei rannu â phob Aelod ac y byddai Arweinyddion Grwpiau'n cyfarfod yn fuan i gytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer y gweithgor trawsbleidiol fel y cam ymgysylltu nesaf â LlC .

(ii) <u>Ymgyrch Genedlaethol Deddf Lucy - Cynghorydd Bernie Attridge</u>

'Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi Ymgyrch Genedlaethol Deddf Lucy i wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd parti, a gofynnir i'r Cyngor ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau. Bydd yn mynd ati'n rhagweithiol i dynnu sylw at yr ymgyrch i'n trigolion drwy'r Sir.

Mae mynd â chŵn bach oddi wrth eu mam yn aml yn creu cŵn sâl, llawn trawma a chamweithredol. Dylai cŵn bach gael eu gweld gyda'u mam yn y man lle ganwyd nhw. Mae eu cludo i le gwahanol i'w gwerthu'n gwneud niwed i'w lles.

Mae'r arfer o fridio cŵn a gedwir mewn ffermydd cŵn bach yn cael ei gadw allan o olwg y cyhoedd ac yn aml mae'r cŵn yn dioddef o flynyddoedd o drawma corfforol a seicolegol. Mae rheoleiddio'r arfer o werthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd partio'n aneffeithiol i atal niwed i gŵn ac felly mae'n rhaid cael gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd parti er lles cŵn sy'n bridio.

Mae ffermio cŵn bach yn effeithio ar drigolion Sir y Fflint gyda'r gost a'r trallod emosiynol o brynu ci bach y gallai fod angen triniaeth gostus arno gan y milfeddyg neu a allai beidio â goroesi.

Bydd gwahardd trydydd parti rhag gwerthu cŵn bach yn cael effaith gadarnhaol ar fridio cŵn, gan sicrhau eu bod yn weladwy ac y gall y cyhoedd weithredu ar gyngor arfer gorau i weld y ci bach gyda'r fam lle ganed y ci bach.

Hefyd bydd yr Arweinydd yn ysgrifennu i gefnogi'r ymgyrch at y Prif Weinidog a Phrif Weinidog y DU gan dynnu sylw at gefnogaeth Sir y Fflint i gyflwyno'r ddeddf yng Nghymru a Lloegr.'

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin a ddywedodd er na fyddai gwaharddiad o'r fath yn cael gwared yn llwyr ar ffermio cŵn bach, roedd yn strategaeth effeithiol i leihau graddfa'r broblem.

Gan gefnogi'r Cynnig, dywedodd y Cynghorydd Colin Legg fod nifer o fridwyr cŵn dibynadwy a chyfrifol iawn hefyd.

Pleidleisiwyd ar y Cynnig ac fe'i pasiwyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd David Healey ar ddiwygio'r system Treth y Cyngor, a hefyd bod llythyr ffurfiol yn cael ei ysgrifennu i Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlLC) a gweithgor Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol; a

(b) Chefnogi'r Rhybudd o Gynnig gan Gynghorydd Attridge ar ddeddf Ddeddf Lucy.

## 115. GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2019-20

Cyflwynodd Dirprwy Swyddog Monitro'r adroddiad i osod taliadau Treth y Cyngor yn ffurfiol a phenderfyniadau statudol cysylltiedig ar gyfer 2019/20 fel rhan o'r strategaeth gyllideb ehangach ar sail y penderfyniad a gymerwyd gan y Cyngor ar 19 Chwefror.

Siaradodd y Rheolwr Refeniw am y tri praesept ar wahân oedd yn gynwysedig yn nhaliadau Treth y Cyngor yn erbyn pob eiddo. Dywedodd mai'r cynnydd arfaethedig ym mhraesept Sir y Fflint oedd 8.75% (yn arwain at dâl o £1,280.68 ar gyfer eiddo Band D; cynnydd blynyddol o £103.08). Adroddwyd cynnydd o 7.74% ar y praesept ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ac atodwyd y gofynion praesept unigol ar gyfer y 34 o Gynghorau Tref a Chymuned drwy Sir y Fflint (cyfanswm cynnydd 2.13%) Roedd cyfanswm y swm a godwyd gan Dreth y Cyngor yn cynnwys cyfanswm praesept y Cyngor Sir - £82,369.496, cyfanswm praesept Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - £17,886,558 a phraesept cyfun o £2,929,690 ar draws Cynghorau Tref a Chymuned.

Yn unol â materion gweithdrefnol eraill, gofynnwyd i Aelodau gymeradwyo parhad cynllun Premiwm Treth y Cyngor a'r arfer fod swyddogion penodedig yn arwain achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r penderfyniad oedd gosod Treth y Cyngor yn ffurfiol ar ôl cau'r broses gyllidebu ar gyfer 2019/20 yn y cyfarfod blaenorol.

Byddai'r ffigurau penodol yn cael eu cynnwys ym miliau Treth y Cyngor ynghyd ag opsiynau talu mewn rhandaliadau. Oherwydd cyfyngiadau statudol ar wybodaeth sydd ar filiau Treth y Cyngor, eleni byddai taflen wybodaeth ffeithiol gyda lluniau ar gyfer y gyllideb yn egluro sut mae'r cyfanswm yn cael ei gyfrifo.

Wrth gynnig yr argymhellion, cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at y drafodaeth hir ar y gyllideb oedd wedi arwain at benderfyniad anodd, gan gydnabod yr angen i ddiogelu gwasanaethau ac ystyried effaith caledi yn y dyfodol. Croesawodd y daflen wybodaeth ffeithiol gyda lluniau a baratowyd gan swyddogion ac anogodd Aelodau i'w rhannu i helpu i ddeall y sefyllfa.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers nad oedd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor wedi'i gefnogi gan bob Aelod ac y gallai'r swm a wariwyd i adennill dyledion heb eu talu fod wedi cael ei ddefnyddio'n well tuag at y diffyg ariannol. O ran trydydd argymhelliad ar yr adroddiad, siaradodd am lefel Treth y Cyngor heb ei dalu oedd wedi'i hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gofynnodd am gamau gweithredu i wella cyfraddau casglu.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai dyled benthyciadau cyfalaf yn unig oedd y ddyled ac y byddai adroddiad ar gasglu Treth y Cyngor yn mynd gerbron Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion am effaith y penderfyniad ynglŷn â'r gyllideb ac y byddai pob band prisio'n cael ei osod yn uwch na £1,000 y flwyddyn, gan effeithio'n arbennig ar y rhai ar incwm is. Dywedodd fod y cynnydd arfaethedig o 8.75% ar gyfer praesept y Cyngor yr uchaf a osodwyd gan Sir y Fflint ac ymysg yr uchaf yng Nghymru ar gyfer 2019/20. Aeth ymlaen i gyfeirio at raddfa'r cynnydd dros y saith mlynedd diwethaf ac awgrymodd bod hyn i'w briodoli i ostyngiad yn y Grant Cynnal Refeniw a hefyd y dull a gymerwyd gan y Weinyddiaeth i ddefnyddio Treth y Cyngor fel ffordd o gydbwyso'r gyllideb.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod tri Chyngor arall yng Nghymru'n bwriadu cynyddu Treth y Cyngor fwy na 9%. Atgoffodd Aelodau o'u dyletswydd gyfreithiol i osod Treth y Cyngor yn ffurfiol erbyn y dyddiad cau statudol oedd yn agosáu.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y dylai'r Cyngor osod Treth y Cyngor ar lefel oedd yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd y Cynghorydd Clive Carver nad oedd cynnydd Treth y Cyngor yn unol â thâl na chynnydd mewn pensiwn.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom y byddai'r Cynnig arall a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi bod yn haws ei reoli. Dywedodd fod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i lenwi'r bwlch yn y gyllideb a bod angen adolygu strategaeth ariannol y Cyngor i atal sefyllfa debyg y flwyddyn nesaf.

Darllenodd y Cynghorydd Arnold Woolley ran o lythyr Swyddfa Archwilio Cymru ar ddull darbodus a argymhellir tuag at y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw y lleisiodd bryderon yn ei gylch.

Siaradodd y Cynghorydd Derek Butler am yr angen i wneud penderfyniadau'n seiliedig ar ffeithiau a bod nifer o gyfleoedd wedi bod ar gael drwy gydol y broses gyllidebu i Aelodau godi materion penodol.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Bithell fod dyletswydd ar Aelodau i wneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor proffesiynol swyddogion arbenigol cymwys, yn cynnwys swyddogion statudol. Ar y sail honno y cefnogwyd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, yn hytrach na'r diwygiad lle byddai wedi bod yn ormod o risg dibynnu mwy ar gronfeydd.

Mewn ymateb i sylwadau am Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas, yn wahanol i rai Awdurdodau eraill, nid oedd y Cyngor wedi cynnig torri gwasanaethau ond yn hytrach roedd yn adeiladu tai'r Cyngor ac yn ystyried dulliau arloesol o ddenu cyllid. Pwyntiodd at y ffaith fod Treth y Cyngor ar gyfartaledd yn Lloegr yn £1,700 y flwyddyn gyda rhai Awdurdodau'n bwriadu cynyddu hyn o £2,000. Roedd hyn yn dangos nad oedd Llywodraeth y DU yn ariannu gwasanaethau Cynghorau'n ddigonol.

Ar gyfer 2020/21, dywedodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol, os defnyddir £0.300m o gronfeydd wrth gefn, cyfrifir bod cap cyllidebol o £9.7m, yn seiliedig ar bwysau a ragwelid a heb unrhyw dybiaethau ar Dreth y Cyngor neu Grant Cynnal Refeniw.

Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis fod y cynnydd yn anodd ei gyfiawnhau i drigolion o ystyried y cynnydd arfaethedig gan Awdurdodau cyfagos a byddai'n cael effaith sylweddol ar holl berchnogion eiddo. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Band D yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i bwrpas dangosol drwy Gymru, gan gydnabod y gwahaniaethau rhwng bandiau.

I gydnabod y penderfyniad anodd a wnaed, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod yn rhaid gwrando ar gyngor swyddogion statudol. Dywedodd y byddai'r bwlch a ragwelid yn y gyllideb ar gyfer 2020/21 wedi cynyddu pe bai Aelodau wedi cytuno i ddyrannu arian wrth gefn pellach. Fel un o nifer o bwysau sylweddol, tynnodd sylw at y cynnydd ym mhensiynau athrawon a fyddai'n effeithiol ar bob ysgol.

Yn ei hawl i ymateb, siaradodd y Cynghorydd Aaron Shotton am yr angen i gydnabod y gwaith a wnaed gan y swyddogion, y gweithlu, cydweithwyr Undeb Llafur a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu i ymateb i heriau caledi a diogelu gwasanaethau, oedd yn gosod Sir y Fflint ar wahân i nifer o Awdurdodau eraill. Dywedodd nad oedd y pwynt a godwyd am fenthyca'n adlewyrchu'r buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a'r rhaglen adeiladu tai'r Cyngor, a bod defnydd pellach o arian wrth gefn ond yn cynyddu pwysau ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel y cydnabuwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai unrhyw benderfyniad yn erbyn gosod Treth y Cyngor yn groes i'r rheol chwe mis ar y penderfyniad a

gymerwyd ar 19 Chwefror gan arwain at fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol.

I egluro, rhoddodd y Prif Weithredwr gyngor technegol ar y risgiau i unrhyw oedi o ran gosod Treth y Cyngor, gydag oblygiadau o ran adnodau a llif arian yn ogystal â'r effaith ar drigolion.

Gwnaed cais gan y Cynghorydd Peers i gofnodi'r bleidlais a chefnogwyd hyn gan 10 Aelod.

Pleidleisiwyd fel a ganlyn ar yr argymhellion yn yr adroddiad:

**O blaid y cynnig:**
Cynghorydd: Paul Cunningham, Bernie Attridge, Glyn Banks, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Geoff Collett, David Cox, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams a David Wisinger

**Yn erbyn y cynnig:**
Cynghorydd: Mike Allport, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Helen Brown, Clive Carver, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dennis Hutchinson, Richard Jones, Brian Lloyd, Dave Mackie, Mike Peers, Ralph Small, Owen Thomas ac Arnold Woolley

**Ymatal:**
Cynghorydd Colin Legg

**PENDERFYNWYD:**

(a) Gosod Treth y Cyngor 2019-20 fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

(b) Cymeradwywyd i barhau â'r polisi o beidio â rhoi gostyngiad yn lefel taliadau Treth y Cyngor am ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor. Hefyd lle nad yw eithriadau'n berthnasol, bod cyfradd Treth y Cyngor yn cael ei godi ar lefel o 50% yn uwch na'r gyfradd safonol o Dreth y Cyngor am ail gartrefi ac aneddiadau gwag hirdymor; a

(c) Chymeradwyo swyddogion penodedig i gyhoeddi achosion cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi heb eu talu.

Yn dilyn yr eitem, galwodd y Cadeirydd am egwyl fer.

**116. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol 2019/20 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd yn pennu

cyfraddau tâl i aelodau etholedig a chyfetholedig Awdurdodau Lleol Cymru am y flwyddyn ariannol nesaf. Ystyriwyd y cynigion drafft ar 20 Tachwedd 2018 pan oedd Aelodau wedi gwrthwynebu'r cynnydd arfaethedig gan nad oedd modd eu cyfiawnhau.

Atgoffwyd Aelodau o'r rhwymedigaeth i weithredu penderfyniadau'r Panel (fel y nodir yn yr adroddiad) oni bai eu bod yn dewis ysgrifennu'n annibynnol neu'n wirfoddol ar y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i fynd heb yr holl daliad, neu ran ohono. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mehefin, unwaith fod yr holl apwyntiadau i swyddi cyflog uwch wedi eu gwneud yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Bernie Attridge ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Ian Dunbar.

Holodd y Cynghorydd Richard Jones am y posibilrwydd fod pob Aelod yn pleidleisio i fynd heb y cynnydd a dywedwyd y dylai sylwadau o'r fath gael eu gwneud yn ysgrifenedig (mewn llythyr neu drwy e-bost) gan Aelodau unigol.

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei bod yn anffodus bod amseriad yr adroddiad yn digwydd yr un pryd â gosod Treth y Cyngor ac nad oedd yr un lefel o graffu'n berthnasol i apwyntiadau i gyrff cyhoeddus eraill drwy Gymru. Wrth ailadrodd y sylwadau a fynegwyd yng nghyfarfod Tachwedd, dywedodd na fyddai'n derbyn y cynnydd arfaethedig.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn i'r Cyngor Sir ac y gellid ystyried sut mae hyn yn digwydd yn y dyfodol, o ystyried bod yr holl wybodaeth wedi'i chyhoeddi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dunbar, dywedodd y Prif Weithredwr gan fod y Cyngor yn gwbl gyfrifol am dalu lwfansau, y byddai unrhyw benderfyniad gan Aelodau i wrthod eu cynnydd yn lleihau'r pwysau penodol hwn ar y gyllideb. Neu, efallai bydd Aelodau eisiau trosglwyddo'r cynnydd i drydydd parti os oeddent yn dymuno.

Cynigiodd y Cynghorydd Carol Ellis ddiwygiad fod Aelodau'n pleidleisio p'un ai i dderbyn y cynnydd cyn ysgrifennu at y swyddog penodol, er mwyn lleihau'r pwysau ar y gyllideb. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones.

I helpu'r drafodaeth, dywedodd y Prif Weithredwr mai dim ond awgrym oedd y bleidlais ond mynegodd bryder y gallai hyn roi pwysau ar Aelodau wrth ystyried eu hamgylchiadau unigol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Ellis ei bod yn awyddus i'w diwygiad sefyll.

Ar ôl clywed cyngor y swyddog, penderfynodd y Cynghorydd Jones beidio ag eilio'r diwygiad fel yr oedd wedi'i gynnig yn flaenorol.

O ganlyniad eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Helen Brown.

Siaradodd y Cynghorydd Neville Phillips yn erbyn y diwygiad ar sail cyngor y swyddog.

Tra bod y Cynghorydd Mike Peers yn deall y rhesymeg y tu ôl i’r diwygiad, roedd yn cytuno â chyngor y swyddog na ddylai Aelodau bleidleisio ond yn hytrach wneud eu penderfyniad eu hunain p’un ai i beidio â derbyn y cynnydd ai peidio.

Ar ôl cynnig ac eilio, crynhodd y Prif Weithredwr y diwygiad fel trydydd argymhelliad y cytunwyd arno gan y Cynghorydd Ellis fel a ganlyn: Bod y Cyngor Sir yn gwahodd pob Aelod i fynd heb y cynnydd blynyddol mewn cyflog/lwfans ar sail wirfoddol.

Pleidleisiwyd, ond gwrthodwyd y cynnig.

Pleidleisiwyd ar y prif cynnig, fel y cynigiwyd ac eiliwyd yn flaenorol, ac fe’i pasiwyd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen anfon hysbysiad ysgrifenedig i fynd heb yr holl daliad, neu ran ohono at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd erbyn 8 Mawrth 2019.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r penderfyniadau y mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi’u gwneud ar gyflogau Aelodau ar gyfer 2019/20; a

(b) Bod y Cyngor Sir yn nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i gyfarfod Mehefin, unwaith y bydd yr holl apwyntiadau i swyddi cyflog uwch wedi’u gwneud yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 7 Mai 2019.

## 117. DEISIEBAU A DDERBYNIWYD YN Y CYNGOR

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar ganlyniadau a chamau gweithredu deisebau a gyflwynwyd i’r Cyngor Sir yn ystod 2018/19. Fel y cytunwyd yng nghyfarfod Hydref, byddai adroddiad tebyg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod olaf y Cyngor Sir o bob blwyddyn.

Cafodd yr argymhellion i’r adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Clive Carver, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai unrhyw aelod y mae angen eglurder arno neu arni ynghylch canlyniadau deisebau penodol gysylltu â’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad.

## 118. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Roedd saith aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.25pm)

....................................................

**Cadeirydd**